Fel Pwyllgor, rydym bellach yn teimlo ei bod yn briodol gofyn am eich barn am Reol Sefydlog 30A a'ch dehongliad ohoni.

Hefyd, hoffwn achub ar y cyfle i awgrymu, gyda pharch, nad yw ymateb y Prif Weinidog (fel y nodwyd uchod) i'n pryderon ynghylch dull gweithredu Llywodraeth Cymru o ran proses Rheol Sefydlog 30A yn adlewyrchu'n gywir ein sylwadau ar y ffordd y mae busnes y Cynulliad yn cael ei gynnal.

O ganlyniad i ddull gweithredu Llywodraeth Cymru o ran proses Rheol Sefydlog 30A, cyflwynodd Suzy Davies AC gynnig mewn perthynas ag un memorandwm cydsyniad offeryn statudol. Ar yr achlysur hwn, nid oedd yr Aelod yn anghytuno â memorandwm Llywodraeth Cymru ei hun, dim ond penderfyniad y Llywodraeth i beidio â chyflwyno'r cynnig cysylltiedig o dan Reol Sefydlog 30A.10. Fodd bynnag, roedd y Rheolau Sefydlog, fel y maent wedi'u drafftio ar hyn o bryd, yn dal i'w gwneud yn ofynnol iddi gyflwyno ei memorandwm ei hun (Rheol Sefydlog 30A.3). Yn ein barn ni, mae'n ymddangos yn ddiangen ei gwneud yn ofynnol i Aelod Cynulliad gyflwyno ei femorandwm ei hun yn yr amgylchiadau hyn, lle mae'n cytuno â Llywodraeth Cymru.

Yn sgil yr uchod, byddwn yn croesawu eich barn am sut y mae Rheol Sefydlog 30A yn cael ei defnyddio a'i dehongli.

Yn gywir



**Mick Antoniw AC**
Y Cadeirydd

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu yn Saesneg.
We welcome correspondence in Welsh or English.